

CYFATHREBU—O FEWN Y TEULU AC Â DUW

Nodyn i'r siaradwr:

Mae'r amlinelliad hwn yn trafod penodau 11-14 y llyfr *Making Your Family Life Happy* (fl). *Peidiwch*, fodd bynnag â darllen i'r gynulleidfa yn uniongyrchol o'r llyfr. Defnyddiwch ddeunydd diweddarach o'r cyfeiriadau ychwanegol; fel hyn bydd eich gwybodaeth yn ffres a diweddar. Agorwch y Beibl yn aml, a darllen yn uniongyrchol ohono fel eich awdurdod

RIENI, CADWCH Y LLINELLAU CYFATHREBU GYDA'CH PLANT YN AGORED (12 mun.)

Beth ydi cyfathrebu? (1Cor 14:9; fl 146)

Gall blynyddoedd yr ardeggau fod yn amser o argyfwng o ran cyfathrebu (fl 146-9)

Mae sylfaen cyfathrebu da neu ddrwg yn cael ei osod o fabandod ymlaen pan anogir sgwrsio neu ei atal (w88 8/1 11-12; w85 8/15 22-3; fl 147-9)

Sicrhewch 'nabod anghenion ardeggwyr er mwyn meithrin cyfathrebu (fl 151-7)

Yn yr oed hwn yn arbennig, mae angen iddyn' nhw gael eu deall a'u parchu fel unigolion

Mae'n bwysig iddyn' nhw deimlo bod eu hangen nhw ac y gwerthfawrogi nhw (g88 9/8 9-10)

Mae eu hangen i fod yn fwy annibynnol, yn golygu y gellir llacio rhai gwaharddiadau (fl 152 ¶14, 153 ¶16)

Maen' nhw'n teimlo angen cryf cael ffrindiau yr un oed y tu allan i'r teulu

Er mwyn cyfathrebu cyngor, sicrhewch eich bod yn deall y sefyllfa (w86 11/1 23; fl 155 ¶20)

Trwy wneud gwaith sy'n cyfrannu at anghenion y teulu daw pobl ifanc i deimlo eu bod o werth fel unigolion a'u bod yn perthyn (Gal 6:4; Tit 3:14; g88 9/8 9-10; g83 2/8 9-10; fl 157-9)

Eglurwch i ieuencid werth côd moesol y Beibl fel arweiniad (Salm 119:9, 63; w88 5/1 6; g83 2/8 10; fl 159-60)

BLANT, CYFATHREBWCH Â'CH RHINIEN A'U HANRHYDEDDU NHW (10 mun.)

Mae Duw yn gorchymyn anrhydeddu rhieni (Eff 6:2, 3; fl 161-3)

Pam dylai plant fod eisiau gwneud hynny? (yp 11-17, 42-9; fl 161 ¶2, 162 ¶3)

Dylai plant fod eisiau cyfathrebu â'u rhieni i ennill doethineb (fl 163-4)

O'u profiad eu hunain, mae plant yn gwybod fod doethineb yn dod gydag amser

O wybod hyn, a gwybod fod eu rhieni gymaint yn hŷn, dylai plant werthfawrogi'r ddoethineb ehangach sydd gan eu rhieni (Diar 23:22)

Dysgwch dderbyn awdurdod llystad neu lysfam (yp 45-9)

Gall plant ddysgu mewn tylwyth un rhiant hefyd (g90 7/8 20-2)

Caiff rhieni eu hanrhydeddu a'u gwneud yn hapus pan fo plant yn helpu yn y cartref, gan gyfoethogi'r cyfathrebu (fl 164-8)

Mae cyfrifoldeb gofalu am rieni wrth iddyn' nhw heneiddio (w87 6/1 13-18; fl 168-70)

Mae anrhydeddu rhieni yn cynnwys gofalu amdany'n nhw'n faterol os oes raid (Mth 15:1-6)

Rhaid gofalu am anghenion emosiynol ac ysbrydol hefyd

CADW CYFATHREBU RHWNG GŴR A GWRAIG YN AGORED WEDI IDDYN' NHW FYND YN HŷN A PHAN NAD YW EU PLANT GYDA NHW (10 mun.)

Wedi i blant dyfu a gadael cartre', gall amodau godi sy'n bygwth agosrwydd y tad a'r fam (fl 171-4)

Mae perygl anniddigrwydd a diflastod am fod y plant wedi mynd ac mae llai o waith i'w wneud

Wrth heneiddio, mae newidiadau corfforol yn digwydd; mae rhai hŷn yn ceisio dod yn weithgar iawn yn gymdeithasol i brofi eu bod nhw mor ifanc ag erioed

Mae rhai yn ceisio profi eu bod nhw'n dal yn rhywiol alluog, yn ymhel â'r rhyw arall y tu allan i briodas, ac weithiau hyd yn oed yn ysgaru ac ailbriodi (Mal 2:13-16; g86 7/8 8-9; g83 2/22 8-10)

Mae llawer o fendithion o aros gyda'i gilydd yn deyrngar (g83 2/8 11-12; fl 174-6)

Cael rhan mewn gweithgareddau pleruser all wneud eich bywyd yn ddefnyddiol yn hydref eich bywyd—helpu eraill, gwasanaethu Duw, cael plant ysbrydol (2Cor 6:11, 12; 1Thes 2:19, 20; Heb 13:16; Iago 1:27; g83 2/22 10-12; fl 177-9)

PARHEWCH I GYFATHREBU Â DUW ER LLES TRAGWYDDOL EICH TEULU (8 mun.)

Wrth i amser fynd heibio, peidiwch â byw yn y gorffennol ond yn hytrach edrych i'r dyfodol (fl 181)

Beth yw'r rhagolygon?

I lawer, mae'n ymddangos mai ychydig flynyddoedd byr sydd o'u blaen yn y dyfodol, yna angau

I'r rhai sydd â ffydd yn Nuw ac yn ei wasanaethu, mae'r dyfodol yn golygu bywyd tragwyddol (fl 182-3)

Drwy gyfrwng y pridwerth, fe gyflawnir cynllun gwreiddiol Duw ar gyfer gosod y ddynoliaeth ar y ddaear

Bywyd ar ddaear baradwys, heddwch, dim salwch, dim marwolaeth (Micha 4:3, 4; Dat 21:1-5)

Beth sydd angen i deuluoedd ei wneud 'nawr i gael y bendithion hyn? (fl 184-8)

Astudio Gair Duw, y Beibl, yn unigol ac fel teulu (w86 11/1 25-6)

Byw yn ôl ewyllys Jehofah, a dweud wrth eraill am fendithion Teyrnas Crist

Dychmygwch y fath fendithion fydd ar ddaear baradwys i'r teuluoedd hynny sy'n cyfathrebu â Duw a gwn-
eud ei ewyllys am byth

MAE CYFATHREBU YN Y TEULU YN ARWAIN AT HAPUSRWYDD A CHYMERADWYAETH DUW (5 mun.)

'Fedr teuluoedd ddim cyfathrebu os nad ydyn' nhw'n treulio amser gyda'i gilydd

Rhaid i'r penteulu drefnu'r amser cyfathrebu hwn

Dylid meddwl am sgwrsio adeiladol (*sg* 78-80)

Dylai teulu gael nod i gael prydau bwyd gyda'i gilydd (*fl* 120)

Dylai bod astudiaeth Feiblaidd deuluol reolaidd (*w86* 11/1 25)

Dylai teuluoedd fynychu'r cyfarfodydd ac eistedd gyda'i gilydd; hefyd mwynhau'r gwasanaeth maes gyda'i gilydd

Dylai bod trefnu adegau rheolaidd o adloniant a theithiau ar gyfer y teulu (Preg 3:1, 4)

'Chawn ni ddim cymeradwyaeth Duw os nad ydym yn cyfathrebu ag ef

Mae Jehofah yn ein gwahodd i gyfathrebu, i weddio'n rheolaidd (Salm 65:2; Iago 4:8)

Cyfathrebu yw'r fformiwla ar gyfer perthynas dda ag eraill: rhieni, plant, gwŷr, gwragedd, pobl yn gyffredinol, a Duw

Peth priodol ac o les mawr fyddai inni oll ddod yn gyfathrebwyr medrus a pharhau i gyfathrebu

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodir ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)